S4C /

# Comisiynydd Drama

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

## Pam ymuno â S4C?

Yn S4C, rydyn ni'n angerddol am greu amgylchedd gwaith positif, egnïol a chynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

Ar Dy Orau, Balch o S4C, Dathlu pawb, Cer Amdani.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â'n tîm wrth i ni gyflwyno ein strategaeth cynnwys newydd aml-blatfform. Rydyn ni'n chwilio am unigolyn dynamig, creadigol a brwdfrydig sy'n byw ein gwerthoedd craidd i ymuno â'n tîm Comisiynwyr.

## Trosolwg y Swydd

Dyma gyfle arbennig i unigolyn creadigol profiadol arwain ar ddatblygu a chomisiynu dramâu yn y Gymraeg ar S4C. O'r dyddiau cyntaf mae dramâu S4C wedi ennyn clod a chefnogaeth y gwylwyr. Rydym yn chwilio am unigolyn profiadol ymhob agwedd o fyd drama sydd yn greadigol a gyda profiad hir o gyfleu cynyrchiadau mawr ar amser ac ar gyllideb. Gall drama ddiddanu ond dylai hefyd herio, gall drafod pynciau hanesyddol Cymru a phortreadu ei hardaloedd amrywiol ar sgrin, y tirlun a chymunedau.

Mae'n operâu sebon yn ran allweddol o'n cynnwys a dylai fod gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad ohonynt a meddu ar adnabyddiaeth a dealltwriaeth ddwfn o gynyrchiadau o'r math hyn.

Yn y tirlun digidol bydd angen ymchwilio i'r cyfleon sydd i arbrofi a gwthio ffiniau. Rydym yn chwilio am unigolyn all feddwl yn flaengar a gwreiddiol, yng Nghymru ac yn rhyngwladol tra'n meithrin y genhedlaeth nesaf o awduron a chyfarwyddwyr o bob cwr o'r wlad yn y Gymraeg.

## Beth fyddwch chi'n ei wneud?

Fel Comisiynydd Drama byddwch chi'n:

- Cyd-weithio gyda'r Prif Swyddog Cynnwys i gomisiynu cynnwys drama gwreiddiol yn Gymraeg, a fydd yn Gymreig ran cynnwys yn boblogaidd a beiddgar, yn fodd i ehangu'r gwylio ac yn ymateb i arferion gwylwyr sydd yn gynyddol yn gwylio drwy ffrydio.
- Sicrhau fod pob comisiwn drama S4C yn cael ei gyfleu yn barod i'w ddosbarthu ar y farchnad rhyngwladol.
- Datblygu cysylltiadau gyda darlledwyr a chynhyrchwyr drama rhyngwladol i sicrhau cyfleon newydd i'r sector yng Nghymru.
- Dan arweiniad y Prif Swyddog Cynnwys, cyfrannu gyda'r Comisiynydd Ffilm, Pennaeth Cynllunio a Phennaeth Digidol a Ffrydio at greu ac adolygu'n gyson strategaeth gynnwys drama aml-lwyfan S4C.
- Gweithio gyda'r Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Cynulleidfaoedd Ifanc a'r Comisiynydd Cynnwys Digidol ar gynyrchiadau sy'n apelio at gynulleidfaoedd iau ac ar blatfformau newydd.

- Adolygu, asesu ac arwain ar strategaeth y ddwy gyfres ddrama'sebon' S4C, gan gwrdd yn rheolaidd gyda'r cynhyrchwyr ac awduron a sgriptwyr.
- Arwain ar gynnig adborth a dadansoddi data o sawl ffynhonell am arferion gwylio operau sebon a dramau.
- Sicrhau ein bod yn cynnig amrywiaeth o bynciau cyfoes yn ein dramau a'n operau sebon.
- Cydweithio yn agos gyda'r BBC wrth oruchwylio cynnwys drama a gynhyrchir ganddynt i S4C fel rhan o'r bartneriaeth strategol.
- Ymweld ar set pob cynhyrchiad drama ac y broses olygu.
- Hybu creadigrwydd a meithrin arloesedd at gynnwys drama newydd.
- Datblygu partneriaethau hir-dymor gyda chynhyrchwyr sydd â syniadau arloesol sydd yn cyd-fynd a gweledigaeth a strategaeth S4C, a hynny er mwyn sicrhau cyflenwad cyson o ddramau o safon a datblygu talent yn y sector, gan adrodd yn ôl i'r Prif Swyddog Cynnwys a'r Prif Weithredwr.
- Flaengar wrth hybu amrywiaeth ar sgrin ac ar gynhyrchiadau gan gweithio gyda'r Tim Pwrpas Cymdeithasol.
- Cyfarfod yn rheolaidd â chwmnïau annibynnol yn eu swyddfeydd a lleoliadau gwaith i drafod a datblygu syniadau newydd, gwerthuso pa rai sydd yn cyd-fynd gyda strategaeth gynnwys diweddaraf S4C a thrafod gyda'r adrannau perthnasol i sicrhau gwerth am arian, i gyd-fynd gyda'n anghenion amserlenu a ffrydio.
- Cynnig arweiniad a chyngor yn achlysurol ar unrhyw gynnwys wedi ei sgriptio gan gydweithio a chomisiynwyr mewn genres eraill mewn meysydd fel dramau i blant a phobol ifanc a chomedi.
- Sicrhau ein bod yn adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth.
- Sicrhau bod comisiynau gan gyflenwyr yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion cynhyrchu yn y Gymraeg, amrywiaeth yn y cynhyrchiad ar sgrin ac oddi arno, cost, ansawdd, cynyddu hawliau i'r eithaf, ac anghenion ariannu.
- Sicrhau fod pob cynhyrchiad yn castio prif actorion gwahanol mewn cynyrchiadau gaiff eu ryddhau'n agos i'w gilydd.
- Gwrando a chymryd adborth a mewnbwn cynhyrchwyr i syniadau ac adrodd yn ôl i'r Prif Swyddog Cynnwys a'r Prif Weithredwr.
- Gweithredu ac adolygu fod datblygiad yn y rhai sydd medru'r Gymraeg yn y prif swyddi ar bob cynhyrchiad. Yn benodol Uwch Gynhyrchwyr, Cyfarwyddwr, Cynhyrchydd, Awduron a Sgriptwyr, a fod y prif rolau hyn yn cael eu gweithredu yn y Gymraeg.
- Annog diwylliant uchelgeisiol a beiddgar sy'n barod i gymryd risg.
- Cynrychioli S4C mewn fforymau cyhoeddus, cynadleddau, rheithgorau a.y.b.

**Byddwch yn llwyddo yn y rôl hon os:**

- Bydd ganddo chi dealltwriaeth ddwfn o ddramâu, a'r cyfleon a'r heriau wrth ddarlledu yn aml-blatfform.
- Byddwch yn gallu datblygu a chynnal perthnasau positif a chynhyrchiol gydag unigolion, sefydliadau a chwmnïau allanol.
- Ydych chi'n frwdfrydig dros greu diwylliant gwaith cynhwysol, egnïol ac iach.
- Gallwch weithio'n annibynnol gyda rhyddid i neud penderfyniadau ond hefyd yn mwynhau cydweithio gyda tîm ehangach i rannu syniadau.

S4C /

| | | |
|---|---|---|
| | Profiad a gwybodaeth o bob cam o'r broses greadigol: creu stori, sgriptio, cynhyrchu, golygu a chyfleu a dosbarthu.<br><br>Profiad o gynhyrchu a goruchwylio cynnwys ar lefel uchel ynghyd ag ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chydymffurfiaeth, cyllid a chyd-gynhyrchu.<br><br>Ymwybyddiaeth o Strategaeth 2030 S4C a'r gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.<br><br>Profiad o ddatblygu, cynhyrchu neu oruchwylio cynnwys drama arloesol ar gyfer gwahanol ddarlledwyr, ddefnydd a phwrpasau.<br><br>Dealltwriaeth a gwybodaeth am y tirlun cynhyrchu drama a ffilm yng Nghymru.<br><br>Cysylltiadau perthnasol yn y diwydiant drama a ffilm.<br><br>Bod yn gyfarwydd iawn gyda cynyrch llenyddiaeth Gymraeg, gyda chynhyrchiadau y theatr ac ar y teledu ac yn medru adnabod talent newydd ar bob lefel. | cynllun ariannol yn ogystal a'r broses ol gynhyrchu.<br><br>Profiad fel cynhyrchydd neu uwch gynhyrchydd drama ar ystod o gynhyrchiadau.<br><br>Ymwybyddiaeth o'r farchnad drama rhyngwladol a'r gallu i adnabod cyfleoedd creadigol a masnachol.<br><br>Profiad o reoli cyllidebau sylweddol. |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Gwybodaeth drylwyr a dwfn am ddrama deledu Cymru ac yn ryngwladol.<br><br>Sgiliau cryf o olygu sgriptiau a chynnig adborth manwl ac adeiladol.<br><br>Y gallu a'r awydd i ymateb yn gyflym a dibynadwy gyda sgriptiau a syniadau.<br><br>Unigolyn trefnus all ymdopi â phwysau gwaith.<br><br>Adnabyddiaeth fanwl o Gymru a'i chymunedau amrywiol a'r gallu i greu cyfres o ddramâu sydd yn cyd-fynd a'i gilydd yn ddaearyddol, naratif a thôn.<br><br>Sgiliau cyfathrebu ar lafar ac ysgrifenedig rhagorol yn y Gymraeg ac y Saesneg.<br><br>Syniadau creadigol am gynnwys, yn gwthio syniadau a'r gallu i'w gwireddu<br><br>Medru gweithio yn annibynnol. | |

